# Swydd Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd: | **Swyddog Prosiect** |
| Lleoliad: | Hybrid (gweithio gartref) ond yn gweithio ledled Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy |
| Statws Cytundebol y Swydd: | Rhan amser, 28 awr yr wythnos, tymor penodol hyd nes 31 Mawrth 2026 |
| Cyflog: | £28,497 (FTE) |
| Teitl Swydd y Rheolwr Llinell: | Rheolwr Eirioli Rhanbarthol |
| Diben y Swydd: | Gweithio â gweddill y tîm rhanbarthol i fodloni amcanion prosiect HOPE drwy gyd-gynhyrchu a gweithredu fframwaith rhanbarthol ar gyfer datblygu eiriolaeth ledled y rhanbarth, a chefnogi ei gyflawniad. Yn ogystal, recriwtio, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr addas yn y rhanbarth i gynnig cymorth eirioli ymyrraeth gynnar i bobl hŷn, gan weithio'n agos ac ar y cyd â phartneriaid Age Connects ac Age Cymru lleol. |
| Prif Gyfrifoldebau: | 1. Yn unol â threfniadau lleol, recriwtio, cefnogi / goruchwylio a mentora / dod yn gyfaill i'r gwirfoddolwyr, a sicrhau bod ganddynt wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd addas<br>2. Sicrhau bod pob darpar wirfoddolwr yn mynd drwy broses ymsefydlu ag Age Cymru, a phob partner Age Cymru ac Age Connects, a sicrhau eu bod yn cael yr holl hyfforddiant gofynnol gan gynnwys pob agwedd ar eirioli, diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth a chynhwysiant, yn unol â threfniadau lleol<br>3. Goruchwylio ac arolygu'r holl waith achos eiriolaeth a gynhelir gan wirfoddolwyr yn y rhanbarth<br>4. Derbyn atgyfeiriadau eiriolaeth ar gyfer y prosiect HOPE yn eich rhanbarth, gan baru gwirfoddolwyr â'r unigolion sydd angen y gwasanaeth. Hefyd, gweithio'n agos ag aelodau eraill o'r tîm prosiect i sicrhau y darperir gwasanaeth ymatebol ac amserol o'r radd flaenaf i bob unigolyn hŷn a'r gofalwyr y cyfeirir ato<br>5. Sefydlu, datblygu a chefnogi gwaith fforymau cyd-gynhyrchu eiriolaeth a'r Llysgenhadon Eiriolaeth gan gadw trefniadau lleol sydd eisoes yn bodoli<br>6. Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol, creu cyfleoedd a hyrwyddo'r prosiect HOPE gan gynnwys hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau bywyd go iawn o ymyrraeth eiriolaeth bositif drwy ystod o ddulliau a chydag ystod o randdeiliaid<br>7. Goruchwylio'r gwaith o brosesu treuliau gwirfoddolwyr yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sydd wedi'u cytuno arnynt |

| | |
|---|---|
| | 8. Cyflawni'r prosiect HOPE yn unol â safonau ac ansawdd arfer gorau cydnabyddedig<br>9. Cefnogi datblygiad adroddiadau rhanbarthol, canllawiau arfer da, pecynnau cymorth eiriolaeth a deunyddiau ymwybyddiaeth o eirioli<br>10. Cadw cofnodion cywir a chyfredol ynghylch pob agwedd ar y gwasanaeth yn y rhanbarth er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei fonitro a'i werthuso'n effeithiol. |
| **Manyleb Person** | **Mae pob un o'r meini prawf a restrir isod yn hanfodol, oni bai y nodir yn wahanol.** |
| Profiad | Y gallu i ddangos profiad o:<br>• Weithio ag eraill i gyflawni prosiectau a gwasanaethau llwyddiannus<br>• Recriwtio, rheoli a gweithio â gwirfoddolwyr<br>• Pennu a chynnal cydweithrediadau cynhyrchiol<br>• Cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau<br>• Rhwydweithio<br>• Negodi ar ystod o lefelau, y tu mewn i'r sefydliad a'r tu allan iddo<br>• Marchnata a hyrwyddo |
| Gwybodaeth | • Recriwtio gwirfoddolwyr<br>• Gwybodaeth am wasanaethau lleol yn y sector cyhoeddus neu wirfoddol<br>• Eiriolaeth<br>• Yr amrywiaeth o ddiwylliannau, amgylcheddau a chymunedau lle mae pobl hŷn a gofalwyr yn byw ynddynt<br>• Materion sy'n effeithio ar bobl hŷn a gofalwyr |
| Sgiliau/Gallu | • Gallu rheoli tîm o wirfoddolwyr yn llwyddiannus er mwyn cyflawni amcanion y prosiect<br>• Arddangos sgiliau cyfathrebu o safon uchel (ar lafar ac yn ysgrifenedig) gyda'r gallu i ddefnyddio'r sgiliau hyn i ddatblygu partneriaethau, negodi a dylanwadu<br>• Meddwl yn greadigol a chreu a datblygu arloesedd yn y swydd<br>• Gweithio ar eich menter eich hun<br>• Gallu rheoli eu hunain ac eraill<br>• Gallu ysbrydoli a chymell eraill<br>• Gallu goruchwylio trefn gwaith, o gynllunio i gyflawni<br>• Gwneud defnydd cost-effeithiol o adnoddau prin<br>• Addasu i amgylchiadau newidiol, gallu gweithio ar sawl peth ar yr un pryd a gwneud penderfyniadau ar sail blaenoriaethau a gofynion newydd<br>• Blaenoriaethu gwaith ac ymdrin â gofynion/anghenion a buddion sy'n cystadlu neu wrthdaro<br>• Hyrwyddo nodau ac amcanion y rhaglen<br>• Gallu defnyddio TG gan gynnwys rheoli data |

| | |
|---|---|
| | • Y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ond byddem yn ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg ond a fyddai'n barod i ddysgu. |
| Cymwysterau | Profiad mewn maes pwnc |
| Amgylchiadau Ychwanegol | Bydd angen i ddeiliad y swydd fod â char at ddibenion teithio, ac mae'n bosibl y bydd angen teithio ledled Cymru bob hyn a hyn. Yn ogystal, efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos ac ar benwythnosau - bydd y rhain wedi'u cynllunio ymlaen llaw. |

**Nodiadau:**

- Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw bod yn rhestr gynhwysfawr, ond yn hytrach i ddiffinio'n eglur pwrpas sylfaenol, cyfrifoldebau a dimensiynau'r swydd. Felly, nid yw'r disgrifiad swydd hwn yn disgrifio unrhyw ddeiliad swydd unigol.
- Yn ogystal â chynnwys y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i weithwyr gyflawni'r holl dasgau rhesymol a pherthnasol eraill ar gais rheolwyr llinell.

| **Cytundeb y Disgrifiad Rôl** | | |
|---|---|---|
| Llofnod Deiliad y Swydd | Enw Mewn Print Bras | Dyddiad |

Chwefror 2016